



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## **Ymateb i adroddiad thematig Estyn: Adolygiad o addysg perthnasoedd iach**

**OGL**

ISBN digidol 978 1 78859 307 6  
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2017  
WG27868

**Teitl yr adroddiad: Adolygiad o Addysg Perthnasoedd Iach**

**(Mehefin 2017)**

**Manylion yr adroddiad**

Cyhoeddwyd adroddiad Estyn *Adolygiad o Addysg Perthnasoedd Iach* ym mis Mehefin 2017 mewn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2016-17.

Roedd yr adroddiad yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth o addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion yng Nghymru. Roedd yn nodi ffyrdd o gefnogi ysgolion i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau i ddisgyblion.

**Cyd-destun:**

Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn deillio o'r canlynol:

- tystiolaeth o ddeilliannau arolygiadau
- tystiolaeth o holiadur
- ymweliadau ag ysgolion
- cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o asiantaethau arbenigol

Nodwyd fod y tair ysgol ar ddeg a ddewiswyd i ymweld â nhw yn arddel arferion cryf o ran addysg perthnasoedd iach o ganlyniad i arolygiadau Estyn.

Darparwyd gwybodaeth hefyd gan dair ar ddeg ysgol gynradd arall, wyth ysgol uwchradd, ac un ysgol arbennig drwy holiadur ar-lein. Mae'r sampl yn ystyried lleoliad daearyddol, cefndir economaidd-gymdeithasol, maint yr ysgol, a chyd-destunau ieithyddol.

**Prif ganfyddiadau:**

- Mae gormod o amrywiaeth yng nghynnwys addysg perthnasoedd iach a'r ddarpariaeth ohoni mewn ysgolion ledled Cymru. Yn gyffredinol, nid yw ysgolion yn rhoi digon o amser na phwysigrwydd i'r pwnc.
- Mae'r ysgolion sydd fwyaf effeithiol wrth ddarparu addysg perthnasoedd iach yn creu ethos lle mae disgyblion yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb ac yn parchu hawliau eraill. Yn yr ysgolion hyn, mae'r disgyblion yn datblygu gwydnwch ac yn magu hunan-barch a hyder.
- Mae'r holl ysgolion a holwyd fel rhan o'r adroddiad hwn yn dysgu disgyblion am berthnasoedd digidol iach drwy addysg e-ddiogelwch. O

ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sy'n briodol i'w hoed o faterion pwysig fel seiberfwlio, meithrin perthynas amhriodol, a diogelu gwybodaeth bersonol ar-lein.

- Mae bron pob ysgol yn dysgu disgyblion am gydraddoldeb rhywiol. Mae pob ysgol uwchradd a nifer o ysgolion cynradd yn dysgu disgyblion am gam-drin domestig. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn dysgu disgyblion am wahanol fathau o drais yn erbyn menywod megis priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, a thrais ar sail anrhydedd. Mae gormod o ysgolion, yn arbennig mewn ardaloedd lle nad oes amrywiaeth yn y gymuned, nad ydynt yn cydnabod bod angen rhoi blaenoriaeth i faterion trais yn erbyn menywod. Nid ydynt yn paratoi disgyblion yn ddigon da i fyw mewn cymdeithas amrywiol.
- Mae tystiolaeth arolygiadau Estyn yn dangos bod bron pob disgybl Blwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd yn cael addysg rhyw a chydberthynas. Mewn mwy a mwy o achosion, mae ysgolion cynradd yn ehangu'r ddarpariaeth hon i gynnwys Blwyddyn 5 er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod rhai plant yn cyrraedd blaenlencyndod yn ieuengach nag eraill. Mewn sawl ysgol gynradd, caiff addysg rhyw a chydberthynas ei ddarparu gan weithwyr iechyd proffesiynol profiadol sydd wedi'u hyfforddi. Mae nifer lleiafrifol o ysgolion yn osgoi dysgu agweddau ar addysg rhyw a chydberthynas, ac eithrio blaenlencyndod. Mae llawer o'r ysgolion hyn yn gadael y gwaith o addysgu am lendid personol a blaenlencyndod i weithwyr proffesiynol y gwasanaeth iechyd mewn sesiynau ar hap.
- Mewn ysgolion uwchradd, mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth addysg perthnasoedd iach yn amrywio'n fawr. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, tiwtoriaid dosbarth sy'n addysgu'r pwnc hwn fel rhan o sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn y system diwtorial. Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd mae addysg perthnasoedd iach yn rhan o'r cwricwlwm ABCh yng Nghyfnod Allweddol 3. Fodd bynnag, nid oedd gan rhai o'r ysgolion a holwyd wersi ABCh ar wahân yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'r ysgolion hyn yn hyrwyddo addysg perthnasoedd iach yn ystod diwrnodau thema, gwasanaethau, ac fel rhan o Fagloriaeth Cymru. Nid yw ysgolion sy'n darparu addysg perthnasoedd iach mewn gwasanaethau arbennig, diwrnodau thema neu flociau bach o wersi mewn pynciau ar wahân yn rhoi digon o gyfle i ddisgyblion ystyried agweddau pwysig cymdeithasol ac emosiynol ar berthnasoedd.
- Mae llawer o ysgolion yn defnyddio asiantaethau arbenigol mewn ffordd effeithiol i gynnal sesiynau ar agweddau pwysig ar addysg perthnasoedd iach. Mae asiantaethau arbenigol yn darparu ystod eang o gymorth i ysgolion gan gynnwys hyfforddi staff, cynnal gwersi

sy'n briodol i oed disgyblion, a chyfeirio dioddefwyr at gymorth addas. Pan fo ysgolion yn meithrin perthynas effeithiol ag asiantaethau arbenigol, gyda'i gilydd, maent yn darparu addysg perthnasoedd iach gynhwysfawr, gan gynnwys gwaith ar gam-drin domestig, trais yn erbyn menywod, a thrais rhywiol sy'n briodol i oed y disgyblion.

- Yn yr ysgolion lle gwelwyd yr arferion gorau, roedd yr athrawon yn ategu gwaith gweithwyr ieuchyd proffesiynol ac asiantaethau arbenigol yn dda gan gynllunio gweithgareddau i'r disgyblion archwilio agweddau pwysig ar berthnasoedd iach mewn gwersi ar draws y cwricwlwm.
- Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion drefniadau ar waith i gefnogi disgyblion sydd wedi dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae llawer o'r ysgolion a holwyd wedi ffurfio partneriaethau strategol gwerthfawr gydag asiantaethau arbenigol sy'n darparu cymorth a chynngor priodol i ddisgyblion. Roedd ystadegau arbrofol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru (2016) ar y ddarpariaeth o wasanaethau cwnsela ledled Cymru yn dangos bod 11,567 o blant wedi cael eu cwnsela yn 2014-15. Staff ysgolion oedd yn gyfrifol am bron hanner yr atgyfeiriadau a'r mater mwyaf cyffredin dan sylw oedd perthnasoedd o fewn teuluoedd. Mae ychydig o'r ysgolion cynradd a holwyd wedi defnyddio cyllid ychwanegol i ehangu gwasanaethau cwnsela y tu hwnt i flwyddyn 6 i gynnwys disgyblion drwy'r ysgol gyfan.
- Yn gyffredinol, nid yw'r trefniadau i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn maen nhw'n ei ddysgu mewn addysg perthnasoedd iach wedi'i ddatblygu ddigon mewn ysgolion yng Nghymru. Yn yr ysgolion prin iawn hynny lle mae disgyblion yn llysgenhadon cydraddoldeb rhywiol, mae'r disgyblion yn eiriolwyr perthnasoedd iach, yn cynnig cymorth i gyfoedion, ac yn gwneud cyfraniad pwysig at waith ataliol yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach.
- Yn gyffredinol, mae ysgolion mewn cymunedau sy'n ddiwylliannol amrywiol yn meithrin perthynas dda â rhieni ac arweinwyr cymunedol. Mae hyn yn helpu i wella'r gwaith o gynnwys rhieni yng ngwaith yr ysgol, lleihau tensiynau diwylliannol, a hyrwyddo ethos lle mae amrywiaeth yn cael ei barchu.
- Mae'r holl ysgolion ac asiantaethau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg yn cefnogi cynnwys addysg perthnasoedd iach fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles y Cwricwlwm newydd sy'n cael ei gynllunio o dan 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson 2015).
- Mae llawer o'r asiantaethau arbenigol o'r farn na fydd amcanion Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cael eu gwireddu'n llawn heb ganllawiau statudol ar

gyfer ysgolion sy'n nodi cwricwlwm craidd ar gyfer addysg perthnasoedd iach y mae gan bob plentyn yr hawl i'w gael.

- Nid yw'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion yn ymwybodol o ganllawiau a pheccynnau Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r gwaith o ddarparu addysg perthnasoedd iach a mabwysiadu ffordd i'r ysgol gyfan ei roi ar waith er mwyn atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn gyffredinol, mae gormod o ddogfennau canllaw i ysgolion sy'n amlinellu agweddau ar addysg bersonol a chymdeithasol, addysg rhyw a chydberthynas, a chydaddoldeb ac amrywiaeth.
- Dim ond ychydig iawn o gyrff llywodraethu sydd wedi gweithredu o ganlyniad i ganllawiau ymarferol Llywodraeth Cymru i lywodraethwyr, 'Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol' (Llywodraeth Cymru 2016).
- Dim ond ychydig iawn o staff ysgolion sydd wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein lefel 1 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Yn gyffredinol, nid yw arweinwyr ysgolion yn ymwybodol o gynnwys a gofynion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### **Argymhellion Estyn**

Argymhellion ar gyfer ysgolion, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, a Llywodraeth Cymru yw'r rhain. Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar wneud addysg rhyw a chydberthynas a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn rhan annatod o'r cwricwlwm presennol a'r cwricwlwm newydd, cael dull ysgol gyfan o gynnal addysg rhyw a chydberthynas, a chynnal hyfforddiant i staff.

### **Argymhellion**

#### **Dylai ysgolion:**

**A1** Roi arweiniad Llywodraeth Cymru ar waith i ddarparu dull ysgol gyfan o atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (Llywodraeth Cymru, 2015)

**A2** Sicrhau bod negeseuon allweddol yn ymwneud â pherthnasoedd iach yn cael eu hymgorffori yn y cwricwlwm a'u hatgyfnerthu'n rheolaidd

**A3** Adeiladu ar yr arfer orau a nodir yn yr adroddiad hwn

#### **Dylai awdurdodau lleol a chonsortia'r awdurdodau lleol:**

**A4** Sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion yn cwblhau'r hyfforddiant a amlinellir yn y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2016a)

## **Dylai Llywodraeth Cymru:**

**A5** Gyhoeddi arweiniad ymhellach i sicrhau bod ysgolion a chyrrff llywodraethol yn ymwybodol o'r cyngor a'r arweiniad y maent yn eu cynnwys

**A6** Sicrhau bod y rheiny sy'n gysylltiedig â chynllunio a datblygu'r cwricwlwm ar gyfer y maes dysgu iechyd a lles a phrofiadau yn ymwybodol o'r rôl bwysig sydd gan ysgolion o ran rhoi Deddf TEMCDThRh 2015 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015) ar waith, a chynnwys addysg perthnasoedd iach yn eu gwaith

**A7** Galluogi staff sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau annibynnol i elwa ar y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2016a)

## **Ymateb Llywodraeth Cymru:**

Rydym yn derbyn yr argymhellion ac yn croesawu'r adroddiad hwn fel ffynhonnell bwysig o dystiolaeth i'n cefnogi wrth sicrhau bod ysgolion yn gallu cynnal Addysg Rhyw a Chydberthynas o safon uchel.

Mae ysgolion arloesi wrthi'n datblygu'r cwricwlwm newydd, gan weithredu ar yr argymhellion a nodwyd yn Adolygiad Annibynnol yr Athro Graham Donaldson o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru, Dyfodol Llwyddiannus.

Pedwar diben y cwricwlwm newydd yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog;
- yn unigolion iach a hyderus;
- yn gyfranwyr mentrus a chreadigol;
- yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus.

Bydd y cwricwlwm newydd wedi'i drefnu yn ôl chwe Maes Dysgu a Phrofiad, ac un o'r rheini fydd Iechyd a Lles. Mae'r dibenion hyn, ynghyd â'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, yn gosod iechyd y corff a'r meddwl a pherthnasoedd cymdeithasol wrth wraidd dysgu ar gyfer pob person ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn ategu'r ymrwymiad i sicrhau bod y lleoliad ysgol yn lleoliad iach, lle mae ymagwedd holistaidd at iechyd a lles yn cefnogi addysg plant a phobl ifanc.

Ym mis Rhagfyr 2016, sefydlodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Banel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r elfen o Addysg Rhyw a Chydberthynas fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn y dyfodol, ynghyd â nodi materion a chyfleoedd a allai lywio penderfyniadau am gefnogi'r proffesiwn addysgu i ddarparu addysg rhyw a chydberthynas o safon uchel yn fwy effeithiol mewn ysgolion.

Ym mis Tachwedd 2017, bydd y panel yn cyhoeddi ei argymhellion ar sail tystiolaeth gadarn, gan gynnwys adroddiad Estyn – *Adolygiad o Addysg Perthnasoedd Iach*.

Bydd yr Athro Emma Renold, Cadeirydd y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cefnogi'r ysgolion arloesi wrth iddynt ddatblygu Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.

Bydd hyn yn sicrhau bod y prif ganfyddiadau, y dystiolaeth ryngwladol, yr arferion gorau ac argymhellion adroddiad Estyn a'r Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn parhau i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i elwa ar gyngor ac arbenigedd y Grŵp Cynghori ar Addysg Personol a Chymdeithasol. Mae'r grŵp hwn, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau iechyd, addysg a gwaith ieuentid, yn rhoi cipolwg i'r llywodraeth o sut mae materion sy'n gysylltiedig ag Addysg Personol a Chymdeithasol yn cael eu cyflwyno mewn ysgolion, a sut y gellid cefnogi a gwella hynny.

Mae Llywodraeth Cymru'n adolygu'r posibilrwydd o ddefnyddio Hwb fel llwyfan ar gyfer rhannu'r e-ddysgu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn benodol er mwyn sicrhau y gall staff addysg ei ddefnyddio, gan gynnwys y rheini yn y sector ysgolion annibynnol. Rydym hefyd yn cynnal gwaith gyda sefydliadau Addysg Bellach i ystyried sut y gallai'r gynulleidfa hon ddefnyddio'r e-ddysgu. Byddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wella argaeledd yr e-ddysgu.

Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod Canllawiau Arferion Da: Dull Addysg Gyfan a'r Canllaw ar gyfer Llywodraethwyr yn cael eu hysbysebu'n well, gan sicrhau hefyd fod gwybodaeth reolaidd yn cael ei rhannu drwy Dysg.

### **Manylion cyhoeddi**

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 23 Mehefin 2017 ac mae i'w weld ar wefan Estyn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/adolygiad-o-addysg-perthnasoedd-iach>